



Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir



Cwynion am sŵn ac ymholiadau nad yw'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn gallu cynorthwyo â hwy

Yn gyffredinol, ni allwn gynorthwyo gyda chwynion am sŵn lle mai'r ffynhonnell yw:

Plant yn chwarae - e.e. mewn gardd, man cyhoeddus neu barc (siarad a gweiddi)

Sŵn domestig - oni bai ei fod yn afresymol o uchel neu ar adegau afresymol o ddydd i ddydd (torri lawnt, tocio gwrychoedd, peiriannau golchi, hwfro)

Byw bob dydd - (sŵn cerdded, switshis golau yn cael eu troi ymlaen/diffodd, siarad cyffredinol, drysau'n cau/curo, cloch y drws, fflysio toiledau, babanod yn crio, dodrefn yn cael eu symud, ymddygiad swnllyd ar risiau/mewn manau cymunedol).
Cysylltwch â'ch swyddog tenantiaeth neu landlord ynglŷn â'r materion hyn

Ymddygiad swnllyd y tu allan yn y stryd (troseddau trefn gyhoeddus) - mater i'r heddlu yw hwn. Ffoniwch 101. Edrychwch ar wefan Heddlu De Cymru south-wales.police.uk ac os ydych chi'n teimlo dan fygythiad, ffoniwch 999.

Sŵn traffig (gan gynnwys cyrn ceir, gwaith ffordd a chynnal a chadw hanfodol) - ewch i wefan yr Asiantaeth Priffyrdd neu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) www.gov.uk

Sŵn rheilffordd (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw hanfodol) - ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru <https://trctrenau.cymru/cysylltu-ni>

Sŵn awyrennau - ewch i wefan Awdurdod Hedfan Sifil y DU caa.co.uk/

CAA House
45-59 Kingsway
Llundain
WC2B 6TE

Prif Switsfwrdd: 020 7379 7311

Dylid cyfeirio **cwynion am sŵn awyrennau milwrol** at

Military Aviation

Ministry of Defence

Directorate of Aircraft Staff

Complaints and enquiries unit

Zone H, 5th Floor

Main Building

Whitehall

Llundain

SW1A 2HB

Ffôn: 020 7218 9000

Neu cyfeiriwch y gŵyn atom ni a byddwn yn ei hanfon ymlaen at y corff priodol ar eich rhan.